tenovus cancer care
gofal canser

LESS SURVIVABLE CANCERS TASKFORCE

MSD

Tachwedd 2023

Mae MSD wedi darparu cyllid i alluogi cyhoeddi'r adroddiad.
Nid yw MSD wedi cael unrhyw reolaeth olygyddol na mewnbwn i gynnwys yr adroddiad.

# Crynodeb i'r Senedd: Mater Llosg

## Gwella Canlyniadau Canser yr Oesoffagws a Chanser y Stumog yng Nghymru







Estyn gobaith. Estyn llaw.
Give hope. Help cope.
tenovuscancercare.org.uk

Call our free Support Line
0808 808 1010
Ffoniwch ein Llinell Gymorth rhadffôn

Ar y cyfan, nid yw canser mor farwol nawr ag yr oedd yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer y rhan fwyaf o ganserau wedi cynyddu'n sylweddol dros y 40 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, ceir is-set o chwe chanser sy'n dal i fod yn farwol iawn gyda chyfraddau goroesi gwael; sef canserau'r ysgyfaint, y pancreas, yr afu, yr ymennydd, yr oesoffagws a'r stumog. Cyfeirir atynt fel 'Canserau Llai Goroesadwy'.

Mae canserau llai goroesadwy yn cyfrif am **chwarter yr achosion o ganser** yng Nghymru ond maent yn gyfrifol am **hanner yr holl farwolaethau sy'n gysylltiedig â chanser**.

Mae gan ganserau'r oesoffagws a'r stumog rai o'r canlyniadau gwaethaf i gleifion canser yng Nghymru, ac nid ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

Mae **19% o bobl sydd â chanser yr oesoffagws a chanser y stumog yn cael eu diagnosis mewn adrannau damweiniau ac achosion brys**. Hynny yw, pan fydd y canser wedi lledaenu i rannau eraill o'r corff, gan arwain at achos iechyd brys lle nad oes iachâd. Mae triniaeth yn debygol o fod yn lliniarol ac fel arfer, dim ond misoedd sydd gan y person ar ôl gyda'u teulu a ffrindiau.

Mae hyn yn annerbyniol. Mae angen gwella canlyniadau yng Nghymru. Mae Gofal Canser Tenovus wedi dechrau'r ymgyrch drwy lunio ein hadroddiad, Cyflawni Newid / Making Change. Er mwyn dechrau gwella canlyniadau canser yr oesoffagws a chanser y stumog yng Nghymru, mae rhaid gwella dealltwriaeth o'r llwybrau sy'n arwain at ddiagnosis a thriniaeth o'r canserau hyn.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, mae Cyflawni Newid / Making Change yn galw ar lunwyr polisi i sicrhau bod diagnosis cynnar o ganser y stumog a'r oesoffagws yn flaenoriaeth genedlaethol – ar unwaith, a phedwar argymhelliad ar gyfer cyflawni hwn. Rydym yn annog eich cefnogaeth i droi'r canfyddiadau hyn yn realiti.

## Yr Achos dros Newid

### Canser yr Oesoffagws

Yn 2020, cafodd 445 o bobl yng Nghymru ddiagnosis o ganser yr oesoffagws, 136 o fenywod a 309 o ddynion.

Yn 2020, bu farw 449 o bobl o ganser yr oesoffagws, 129 o fenywod a 320 o ddynion.

Mae 71% o bobl yn cael diagnosis cam tri ac uwch, mae llai na 3% yn cael diagnosis cam un.

### Canser y Stumog

Yn 2020, cafodd 348 o bobl yng Nghymru ddiagnosis o ganser y stumog, 104 o fenywod a 244 o ddynion.

Yn 2020, bu farw 248 o bobl o ganser y stumog, 93 o fenywod a 155 o ddynion.

Y gyfradd goroesi 1 mlynedd o adeg diagnosis canser y stumog cam un yw 82%, y gyfradd goroesi 1 mlynedd ar gam pedwar yw 19%.

**Er yr oedd canserau'r oesoffagws a'r stumog wedi cyfrif am ddim ond 4.5% o ganser ledled Cymru yn 2020, roeddent wedi cyfrannu'n anghyfartal at 7.7% o'r holl farwolaethau canser.**

# Mater Llosg

## Mae Gofal Canser Tenovus yn argymell bod diagnosis cynnar o ganser yr oesoffagws a’r stumog yn cael ei wneud yn flaenoriaeth genedlaethol.

Bydd hyn yn cael ei weithredu drwy’r ymyriadau canlynol:

### Cynyddu ymwybyddiaeth o symptomau annelwig ac amhenodol canser yr oesoffagws a chanser y stumog

Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o ganser yr oesoffagws a chanser y stumog yn parhau i fod yn isel, yn enwedig ar gyfer y symptomau annelwig ac amhenodol, fel llosg y galon.

Gellir defnyddio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd ar lefel genedlaethol ac o fewn cymunedau lleol i gynyddu addysg iechyd ac ymwybyddiaeth o symptomau, a gellir defnyddio ymyriadau fferylliaeth i dargedu pobl â symptomau llosg y galon parhaus ar adeg arddangos symptomau/prynu meddyginiaeth llosg y galon. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth o symptomau canser annelwig ac yn hyrwyddo’r arfer o geisio cymorth i sicrhau bod cleifion yn ymgynghori â'u meddyg.

### Cynyddu ac ehangu gwasanaethau endosgopi yng Nghymru gyda ffocws ar mewnosod technoleg ddiagnostig arloesol

Mae’r angen am driniaethau endosgopi wedi cynyddu’n sylweddol ers pandemig COVID-19. Bydd angen technolegau arloesol i fynd i'r afael â'r cynnydd hwn er mwyn sicrhau y gall cleifion gael profion diagnostig a gwyliadwriaeth yn brydlon.

Dylid cyflwyno technolegau arloesol, megis endosgopi traws-trwynol, a'r prawf sbwng llyncadwy ledled Cymru i frysbennu a diogelu gwasanaethau endosgopi. Bydd hyn yn cyfrannu at wasanaeth diagnostig effeithlon, gan sicrhau fod cleifion yn cael profion diagnostig prydlon a diagnosis cynnar.

### Creu cofrestrfa genedlaethol ar gyfer cleifion oesoffagws Barrett yng Nghymru

Er mwyn deall effaith oesoffagws Barrett (yr unig ragflaenydd hysbys i ganser yr oesoffagws) mae angen casglu data’n fwy effeithiol. Bydd creu cofrestrfa genedlaethol ar gyfer oesoffagws Barrett yn safoni’r gwaith o gasglu data rhwng byrddau iechyd lleol.

Yn absenoldeb rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser yr oesoffagws, mae oesoffagws Barrett yn gyfle unigryw i adnabod y cleifion sydd mewn perygl o gael canser yr oesoffagws a rhoi diagnosis iddynt cyn gynted â phosibl.